


textHELP Read & Write

Mae Read & Write gan textHELP yn rhaglen sy'n **darllen dogfennau a sgrin.**

Mae ganddi nifer fawr o swyddogaethau eraill hefyd. Mae'n gymhathus â'r rhan fwyaf o borwyr gwe,



proseswyr geiriau a dogfennau. Mae'n gweithredu fel bar offer symudol gyda botymau gwahanol yn cynrychioli swyddogaethau gwahanol.

Mae Read & Write hefyd yn **cysylltu â thiworialau ar fideo** sydd ar y cwymplenni, drws nesaf i bob eicon yn y bar offer i chi gael mwy o wybodaeth.

Mae Read & Write hefyd yn cynnwys **gwirydd sillafu** a geiriadur i helpu i egluro geiriau.

Dyma **rai awgrymiadau** a ffyrdd o ddefnyddio Read & Write:

1. Gallwch ddefnyddio darlennydd testun Read & Write i **brawf-ddarllen eich gwaith**. Yn aml rydym yn darllen yr hyn yr ydym yn meddwl ein bod ni wedi ei ysgrifennu, yn hytrach na'r hyn yr ydym wedi ei ysgrifennu mewn gwirionedd. Felly

mae gwrando ar y meddalwedd yn darllen y ddogfen yr ydych wedi ei ysgrifennu yn helpu i ddangos unrhyw gamgymeriadau.

2. Hefyd gall Read & Write **ddarllen testun o wefannau** a pdfs a gall hynny eich galluogi i wrando ar dalpiau mawr o destun, gwaith fyddai fel arall yn hir a blinderus.
3. Gallwch **addasu** bar offer Read & Write i gynnwys y swyddogaethau hynny yr ydych yn eu defnyddio amlaf.
4. Gallwch **newid** o lais gwrywaidd i lais benywaidd, a newid acen, traw a chyflymder y llais i'ch siwtio chi.
5. Mae Read & Write yn arf dysgu cynhwysfawr ac rydym yn argymhell eich bod yn cael **hyfforddiant un i un** ar sut i'w ddefnyddio.

